OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 674

# Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

## RHAN 1

### Cyflwyniad

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Deuant i rym fel a ganlyn—

(a) o ran y Rhan hon a Rhan 2, drannoeth y diwrnod y'u gwneir;

(b) o ran y gweddill, ar y diwrnod ymadael.

(3) Maent yn gymwys o ran Cymru.